

Prosiectau Sylfaenol - asesiadau coetir

Baseline Projects - woodland assessments

Bydd yr asesiadau coetir ar draws 15 fferm Ein Ffermydd yn darparu data sylfaenol o amodau gwrychoedd a choetiroedd cyfredol ar draws y rhwydwaith.

Bydd yr asesiadau'n nodi cyfleoedd ar gyfer cyfleoedd rheoli cynaliadwy yn y dyfodol i wella perfformiad amgylcheddol ac economaidd busnes y fferm.

» Beth a wnaethpwyd?

Defnyddiwyd astudiaeth bwrdd gwaith ac ymarfer gwirio uniongyrchol i gasglu data am goetiroedd ar y ffermydd. Roedd fformat yr asesiad fel a ganlyn:

Nodi penawdau fferm allweddol:

1. Menter (mentrau) fferm – Llaeth / cig coch / dofednod / âr
2. Cyfanswm arwynebedd y fferm: hectarau
3. Cyfanswm arwynebedd y coetir: hectarau
4. Asesu cyflwr y coetir: Yn amrywio / yn dirywio / yn gwella
5. Bygythiadau i'r coetir - Gorburi / plâu a chlefydau (clefyd coed ynn)
6. Cyfle ar gyfer cynhyrchion pren: Uchel / canolig / isel
7. Coedwedd fferm nad yw'n goetir: Amaethgoedwigaeth / coed parcdir / coed gwrychoedd
8. Cyfle i wella coetir: Uchel / canolig / isel
9. Cyfle i greu coetir: Uchel / canolig / isel

Asesiad o:

» STRWYTHUR

Dylai coetir aeddfed gynnwys haenau. Y 'canopi', canghennau'r goeden ar frig y coetir, trwodd i haenau'r is-ganopi, i lawr i lwyni (yr isdyfiant) a phlanhigion ar y ddaear (fflora'r ddaear). Mae'n annhebygol y bydd gan goedwigoedd nad ydynt yn cael eu rheoli a choetiroedd sy'n cael eu pori'r strwythur hwn. Bydd cyflwr y ddaear yn cynnwys dail crin a phren marw a fydd yn cynnwys llawer o ffyngau sy'n torri'r dail crin a phren wedi cwmpo yn llai i ddychwelyd y maetholion i'r pridd.

» TIR AGORED

Mae hyn yn galluogi i olau gyrraedd llawr y coetir. Mae traciau ar gyfer rheoli fel yn y llun yn enghraifft. Gellir dod o hyd i fannau agored mwy ar ffurf rhodfeydd, llennyrch a phyllau. Mae mannau agored yn cyfrannu at amrywiaeth ar ffurf planhigion ar ymyl coetir a'u trychfilod, adar ac anifeiliaid cysylltiedig. Mae cynnal mannau agored yn gwella cynefin bywyd gwyllt a gall y 10 metr yn union o ymyl y coetir gynnwys llawer o'r fflora a'r ffawna sy'n bresennol yn y goedwig.

» **OED Y COED** – bydd gan goedwigoedd strwythur oedran gwahanol a strwythur canopi anwastad:

- a) **Oedran sydd â mwy na tri dosbarth oed** – amrywiaeth uchel oherwydd amrywiaeth o gynefinoedd bywyd gwyllt ac oedran a rhywogaethau amrywiol o goed: Coed aeddfed a hynafol; coed lled-aeddfed a llai; Rhywogaethau o lwyni ac isdyfiant; Glasbrennau wedi'u hadfywio'n naturiol.
- b) **Oedran cyfartal** - Mae coed dominyddol yn y coetir i gyd yr un oed gan eu bod wedi'u plannu ar yr un pryd ac fe'u gelwir yn goetir planhigfa.

The woodland assessments across 15 of Our Farms will provide baseline data of current hedgerow and woodland conditions across the network.

Identifying opportunities for future sustainable management opportunities to improve environmental and economic performance of the farm business.

» What was done?

A desktop study and ground truthing exercise was used to collect data on woodlands on the farms. The assessment format was as follows:

Identify Key farm headlines:

1. Farm enterprise(s) – Dairy / red meat / poultry / arable
2. Total farm area: hectares
3. Total woodland area: hectares
4. Assess Woodland condition: Variable / in decline / improving
5. Woodland threats - Overgrazing / pests & disease (Ash dieback)
6. Wood products opportunity: High / medium / Low
7. Non woodland farm treescape: Agroforestry / parkland trees / hedgerow trees
8. Woodland enhancement opportunity: High / medium / low
9. Woodland creation opportunity: High / medium / low

Assessment of:

» STRUCTURE

A mature woodland should comprise of tiers. The 'canopy', the tree crown at the top of the woodland, through to sub-canopy layers, down to shrubs (the understorey) and plants on the ground (ground flora). Undermanaged woods and grazed woodlands are unlikely to have this structure. Ground condition will consist of leaf litter and dead wood which will include many fungi which break down the dead leaves and fallen wood to return the nutrients to the soil.

» OPEN GROUND

This allows light to reach the woodland floor. Tracks for management such as in the picture is an example. Larger open spaces can be found in the form of rides, glades and ponds. Open space contributes to diversity in the form of woodland edge plants and their associated insects, birds and animals. Maintaining open space enhances wildlife habitat and the immediate 10 metres from the woodland edge can accommodate much of the flora and fauna present in the wood.

» **TREE AGE** – woods will have different age structure and an uneven canopy structure:

- a) **Uneven age** – high diversity due to a range of wildlife habitats and diverse age and species of tree: Mature and ancient trees; semi-mature and smaller trees; Shrub and understorey species; Natural regenerated saplings.
- b) **Even age** - dominant trees in the woodland are all the same age as they've been planted at the same time and known as a plantation woodland.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

EIN FFERMYDD
OUR FARMS